

# Rheoli Anwedd a Llwydni yn eich Cartref



**ateb** *better living solutions*

# Beth yw anwedd?


**Mae anwedd yn digwydd pan mae awyr llaith cynnes yn cwrdd ag arwyneb oer.**

Mae lleithder bob amser yn yr awyr, hyd yn oed os na ellir ei weld. Wrth i'r awyr oeri, nid yw'n medru dal yr holl leithder ac mae diferion o ddŵr yn ymddangos. Os na all awyr llaith ddianc drwy ffenestr agored neu dwll awyr, bydd yn symud o gwmpas eich cartref nes iddo ddod o hyd i fan oer lle bydd yn troi'n anwedd. Gall hyn arwain at dyfiant llwydni.

**Y problemau sy'n codi yn sgil gormod o anwedd.**

Gall lleithder a achosir gan ormod o ansawdd achosi llwydni i dyfu ar waliau, dodrefn, dillad a ffabrigau eraill ac achosi ffenestri pren i bydru. Mae amodau llaith hefyd yn cynnig amgylchedd sy'n caniatáu i widdon llwch luosogi'n hawdd. Gall presenoldeb llwydni a gwiddon llwch waethygu cyflyrau anadlol presennol, megis asthma a llid y frest.

## Y pedwar prif ffactor sy'n achosi anwedd yw:



# Mae anwedd yn digwydd pan mae awyr llaith cynnes yn cwrdd ag arwyneb oer.

Mae gweithgareddau bob dydd yn ychwanegu lleithder at yr awyr yn eich cartref.



Gall 2 berson gynhyrchu:

**3**  
Pheint



Golchi dillad:

**1**  
Peint



Bath neu gawod:

**2**  
Pheint



Coginio a defnyddio'r tegell:

**6**  
Pheint



Golchi llestri:

**2**  
Pheint



Gwresogydd nwy (8 awr):

**4**  
Pheint



Sychu dillad yn y tŷ:

**2**  
Pheint

Cyfanswm y lleithder a ychwanegwyd mewn un diwrnod:

**27**  
Pheint

**15.3**  
Litr

# Gallwch leihau'r potensial am anwedd drwy gynhyrchu llai o leithder.

- Ceisiwch beidio â sychu dillad yn y tŷ.
- Rhowch gaeadau ar sosbenni wrth goginio.
- Wrth lenwi bath, rhowch ddŵr oer ynddo yn gyntaf. Bydd yn lleihau anwedd 90%.
- Cadwch ddrysau'r gegin a'r ystafell ymolchi ar gau wrth goginio neu ymolchi er mwyn atal lleithder rhag symud o amgylch y tŷ.
- Wrth ddefnyddio peiriant sychu dillad, gwnewch yn siŵr bod yr awyr yn dianc i'r tu allan neu fod y peiriant o'r math cyddwyso.
- Osgowch ddefnyddio gwresogyddion nwy oherwydd gallant gynhyrchu tua 8 peint o ddŵr fesul silindr nwy ar gyfartaledd, a gallant fod yn beryglus os nad yw'r ystafell wedi'i hawyru'n ddigonol.



# Awyru eich cartref

- Gall awyru helpu i leihau anwedd drwy dynnu awyr llaith o'ch cartref a dod ag awyr mwy sych o'r tu allan.
- Dylech leihau'r anwedd sy'n adeiladu dros nos drwy "groes-awyru" eich cartref. Agorwch ffenestr fach i lawr y grisiau a ffenestr fach i fyny'r grisiau am dua 30 munud. Bydd agor bydd drysau mewnol y tŷ yn galluogi'r awyr mwy sych i dreiddio o amgylch eich cartref.
- Dylech awyru'r gegin wrth goginio, golchi llestri neu olchi â llaw drwy agor ffenestr fach. Defnyddiwch ffan echdynnu. Mae'n rhad ac yn effeithiol iawn.
- Dylech awyru eich ystafell wely drwy adael ffenestr ar agor gyda'r nos, neu agorwch yr holltau awyru.
- Peidiwch â rhwystro unrhyw dyllau awyr.
- Gallwch leihau'r risg o lwydni ar ddillad drwy adael yr awyr i deithio o amgylch y tŷ. Peidiwch byth â gorlenwi cypyddau dillad gan fod hyn yn atal awyr rhag teithio o amgylch.
- Rhowch ddodrefn ar flocliau er mwyn gadael awyr i dreiddio oddi tanynt.
- Caniatewch fwch bach rhwng dodrefn mawr a'r waliau.
- Peidiwch â diffodd switshys ynysyddion ffan.

## Arwynebau oer

Mae anwedd yn ffurfio'n haws ar arwynebau oer yn eich cartref. Mewn nifer o achosion, gellir twymo arwynebau drwy wella'r inswleiddio a thrwy atal drafftiau. Bydd hyn hefyd yn helpu eich tŷ cyfan i deimlo'n gynhesach ac yn lleihau biliaub tanwydd.

Pan fydd y tŷ cyfan yn gynhesach, mae ansawdd yn llai tebygol o ffurfio. Inswleiddio'r llofft a'r waliau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o inswleiddio.

## Tymheredd y cartref

Mae awyr cynnes yn dal mwy o anwedd nag awyr oer sydd yn fwy tebygol o ollwng diferion o anwedd o gwmpas eich cartref. Mae gwresogi un ystafell i dymheredd uchel yn gwneud anwedd yn waeth yn yr ystafelloedd nad ydynt yn cael eu gwresogi. Mae hi'n well felly i wresogi'r cartref cyfan i dymheredd canolog i isel.

Bydd cadw'r gwres yn isel drwy gydol y dydd mewn tywydd oer yn helpu i reoli anwedd. Defnyddiwch y rheolyddion ar y gwresogyddion i dwymo pob ystafell.



## Camau i osgoi tyfiant llwydni...

**Cam  
1**

Yn gyntaf, dylech drin y llwydni sydd eisoes yn eich cartref, ac yna gallwch ymdrin â'r broblem sylfaenol o anwedd er mwyn atal llwydni rhag dychwelyd.

**Cam  
2**

Er mwyn lladd a chael gwared ar lwydni, golchwch neu chwistrellwch waliau a fframiau ffenestri gan ddefnyddio golchiad ffyngladdol e.e. glanhawr llwydni.

**Cam  
3**

Ewch ati i sychlanhau dillad â llwydni arnynt a golchi carpedi â siampŵ.

**Cam  
4**

Peidiwch â cheisio cael gwared ar lwydni drwy ddefnyddio brws neu hwfer.

**Cam  
5**

Ar ôl trin y llwydni, ailaddurnwch gan ddefnyddio paent ffyngladdol o ansawdd da neu bapur wal gwrth-ffyngaidd i helpu i atal llwydni rhag dychwelyd.

## Camau i osgoi anwedd...

Mae'n bwysig cymryd y camau cywir i fynd i'r afael ag anwedd. Dyma rai enghreifftiau o bethau syml y dylech eu gwneud ar unwaith...

**Cam  
1**

Sychwch ffenestri a silffoedd ffenestri bob bore.

**Cam  
3**

Gwasgwch y clwtyn yn sych yn hytrach na'i adael i sychu ar wresogydd.

**Cam  
2**

Sychwch arwynebau'r gegin a'r ystafell ymolchi sydd wedi gwlychu.

*better living  
solutions*

Mae siarad â ni'n hawdd.



**Galwch heibio i'n gweld yn:**

Meyler House,  
St. Thomas' Green,  
Haverfordwest,  
Pembrokeshire, SA61 1QP



**Cysylltwch â ni ar:**

Ffôn → 01437 763688/774703  
Ffacs → 01437 763997  
Rhadffôn → 0800 854568  
E-bost → [hello@atebgroup.co.uk](mailto:hello@atebgroup.co.uk)